# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FEDI'R 3ydd, 2024

## Yn NEUADD BENTREF COEDYBRYN am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd ) Cyng. Emyr Jones
Cyng. Sharon Thomas Cyng. Ceri Jones
Cyng. Maldwyn Lewis Cyng. Mark Davies
Cyng. Teifi Evans Cyng. Llyr Evans
Cyng. Osian Davies

**Clerc** Rhian Jones

Yn gyntaf gwnaeth y Gadeiryddes Sian Williams Longyfarch y Cyng. Ceri Jones ar ei lwyddiant yn Rali Ceredigion dros y penwythnos. Cafodd ail safle yn ei grwp. Arbennig.

Croesawyd ein Cynghorydd newydd i'w gyfarfod cyntaf sef y Cyng. Osian Davies o Goedybryn.

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng.Carol Davies ynghyd a'r Cyng.Rob Jones

.

**2. Datgan Diddordeb –** DIM

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

**3.1 -** Derbyniodd bawb gopi o gofnodion mis Gorfffennaf a cynigiodd y Cynghorydd Mark Davies eu bod yn gywir ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sharon Thomas.

.

**4.Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**4.1 -** Cynhaliwyd bore Openreach yn Neuadd Rhydlewis ar Awst 10fed. Aeth y Gadeiryddes Sian Williams a'r Clerc Rhian Jones i'r bore coffi fel cynrychiolaeth o Gyngor Cymuned Troedyraur.

**4.2 –** Pathways – Jill Lowry – Wedi derbyn ymateb wrthi ac mae modd i cael Rhif archeb a byddem ni yn talu'r anfoneb er mwyn sicrhau fod yr arian yn aros yn ein cymuned. Trafodwyd hefyd efallai y byddai yn syniad i ni drefnu rhywun i wneud y gwaith ar un o'r llwybrau sydd eisioes yn bodoli ond wedi gor-dyfu. Efallai llwybr ger Hawen Hall. Byddai hyn yn cynorthwyo Pathways hefyd. Bydd angen i ni gael 3 pris wth gontractwyr lleol – holi Teifi Tree services, Bleddyn Jones a'r Flower Meadow. (Bydd y Cynghorwyr Teifi Evans, Mark Davies a Ceri Jones yn mynd i weld pa waith sydd angen cyn ein bod yn cysylltu gyda'r contractwyr).

**4.3** – Arwydd T Llew Jones – angen cysylltu gyda Boomerang.

**4.4** – Awdit – heb glywed dim. Y Cyng Sian Williams wedi cysylltu gyda Awdit Cymru ond yr ymateb a dderbyniodd mewn e-bost oedd i beidio cysylltu gyda nhw am ddiweddariad.

**4.5** - Arwyddion Maesllyn wedi cael ei ail osod gan Gethin a Geraint. Diolch i'r ddau ohonoch.

**4.6 –** Llinos Davies wedi cyfieithu'r adroddiad blynyddol ac mae ar y wefan eisioes.

**4.7** – Mae'r meinciau wedi cael eu gosod yn eu lle yn Brongest a diolchwyd i'r Cyng. Teifi Evans am drefnu hyn. Braf gweld eu bod yn cael defnydd eisioes ac mae angen trefnu nawr i roi plac arnynt a dod i dynnu llun.

**5. Cyrsiau**

**5.1** – Y Cyng.Osian Davies i wneud y Cwrs Cynghorydd Newydd – Medi 30ain.
**5.2** – Modiwl 4 – Deall y Gyfraith – Y Cyng. Sian Williams – Medi 11eg
Modiwl 9 – Cod Ymddygiad – Y Cyng Sharon Thomas, Cyng.Ceri Jones a'r Cyng.Osian Davies – Medi 11eg
Modiwl 9 – Cod Ymddygiad - Y Cyng Sian Wiliams a'r Cyng Llyr Evans – Medi 24ain
Modiwl 6 – Cyllid Llywodraeth Leol (Local Government Finance) – 23/9/24 Cyng Mark Davies

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

**6.1** – Cyfarfod wedi bod heddiw am Addysg Gogledd y Sir. Ymgynghoriad am y dyfodol. Rhaid meddwl am ffyrdd i arbed arian mewn byd addysg, mae nifer o blant sydd mewn rhai ysgolion yn rhy fach i'w cynnal. Efallai bydd rhaid symud i ysgolion mwy sydd eisioes yn bodoli.
**6.2** – Ymgynghoriad atal llifogydd yn Aberystwyth.
**6.3** – Nifer o ddigwyddiadau bach wedi bod ar draws y Sir yn sioeau a gwyl fwyd ond y Prif ddigwyddiad yng Ngheredigion oedd y Rali, penwythnos olaf mis Awst. Bu'n fudd mawr i'r Sir ac roedd yn ddigwyddiad llwyddianus iawn.
**6.4** – Mae'r gwaith atal llifogydd yn parhau yn Aberaeron..
**6.5** – Mae'r gwifrau Ffibr yn mynd lawr mewn pentrefi ar draws y gymuned – wedi dechrau yn Rhydlewis. Bydd y ffonau yn mynd yn ddigidol erbyn diwedd y flwyddyn hefyd.

**7. Gohebiaeth**

**7.1 –** Cynllun Amddiffyn Aberystwyth. Cyfarfod wedi bod ddoe ac mae taflen i ymateb a lleisio barn.
**7.2 –** Diogelu – bydd angen i ni drefnu cael rhywun i siarad a ni am y pwnc yma.
**7.3**- Tiggywinkles – gwybodaeth am achub y draenogod.
**7.4** – Grantiau bach ar gael "Natural small grant schemes".
**7.5 –** Tafle i lenwi ( wedi ei rhannu ar Facebook) gan Elin Jones am fysus mewn ardaloedd gwledig. Mewn trafodaeth gyda Dolen Teifi.
Mae bws Green Dragon eisioes yn dod ar ddydd Mercher i ardal Rhydlewis, Brongest, Coedybryn a Phenrhiwpal ac yn teithio i Gastell Newydd Emlyn ac Aberteifi am yn ail wythnos.
**7.6** – Bwletin Costau byw Ceredigion ( wedi ei rannu ar Facebook )
**7.7 –** Tipyn o e byst wedi dod am atal cam drin domestig.

**8. Cynllunio**

DIM

**9. Cyfrif y Cadeirydd**

**9.1** - Cododd Gwyn Jones fod rhai Cynghorau cymuned yn cael cyfrif y Cadeirydd sydd rhwng £150 a £500 y flwyddyn. Maent yn defnyddio'r arian at dalu am bryd bwyd unwaith y flwyddyn i'r Cynghorwyr gan eu bod yn gweithio'n wirfoddol. Trafodwyd hyn a daeth pawb i gasgliad eu bod yn gwneud y swydd i'r gymuned ond byddai'r Cyngor yn barod i dalu pan

fod Cynghorydd yn ymddiswyddo ( fel gwnaeth Roger Davies yn gynharach y flwyddyn hon – talwyd am ei bryd bwyd fel cydnabyddiaeth a diolch am ei wasanaeth dros y blynyddoedd).

**10. Diweddaru'r Wefan**

**10.1** – Angen cysylltu er mwyn ychwanegu manylion y Cyng Osian Davies i'r Wefan.

**10.2** - Angen cysylltu gyda Lesley Parker i holi am bris cael e-byst i pob Cynghorydd yn hytrach na defnyddio eu rhai personnol.

**11. Defib**

**11.1 –** Mae'r pads oedd yn mynd allan o ddyddiad wedi cael eu diweddaru yn mhob bocs.

**11.2** – Mae batris Croeslan yn cael eu newid nos yfory. Nododd Pauline mae rhain fydd y set olaf o fatris a pads bydd am ddim. Bydd rhaid i ni fel cyngor brynnu rhai yn y dyfodol os byddant yn mynd allan o ddyddiad. Er hynny os bydd digwydd i'r De-fib gael ei ddefnyddio, yna mae'r gwasanaeth Ambiwlans yn rhoi padiau newydd pryd hynny.

**11.3** – Mae'r Cyng.Ceri Jones wedi newid y bocsys De-fib yn Rhydlewis, mae tua 4 bocs sbâr ar gael ar gyfer tu fewn i adeiladau os bydd eu angen.

**11.4** – De-fib Coedybryn – Mae'r Cyng.Osian Davies ynghyd a'i Dad, y cyn gynghorydd Roger Davies yn mynd i gadw llygad ar focs Coedybryn.

**12. Cyllid**

Cytunodd pawb i dalu'r sieciau ac arwyddwyd gan y Cynghorwyr Sharon Thomas a Ceri Jones.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn Jones Awdit | £150.00 | 001770 | |
| Cyflog y clerc | £515.96 | 001772 | ( 2 fis ) |
| HMRC | £129.20 | 001771 | |
| Neuadd Ffostrasol | £60.00 | 001773 | |
| Sian Williams | £36.99 | 001774 | ( postio/ cinio ymddeol y Cyng.R Davies) |
| Un Llais Cymru | £271.00 | 001775 | |
| Llinos Jones Cyfieithu | £74.14 | 001776 | |
| Ashmole & Co | £94.50 | 001777 | |

( Bydd angen llythyr erbyn y cyfarfod nesaf i drosglwyddo £2,000 i'r cyfrif cyfredol.)

**13. Diweddariad yr Awdit**

Heb dderbyn unrhyw ymateb.

**14. Materion Ardal**

**14.1 –** Mae'r meinciau a dderyniwyd ynghynt y flwyddyn hon bellach wedi cael eu gosod yn eu lle.

**14.2** – Mae Stonetrap Brongest yn dal i achosi trafferth – mae angen jetter yno.

**14.3** -Ffostrasol – mae'r cloddiau tuag at Capel Cynon wedi gordyfu ac mae'n achosi i gwerddwyr orfod dod oddi ar y palmant a cherdded ar y ffordd fawr sy'n beryglus.

**14.4** – Ger Glyniscoed mae twll tua 8 modfedd ar y ffordd ger y gorchudd dwr.

**14.5** – Ger hen Ysgol Capel Cynon mae angen adnewyddu'r wal – mae'r basgedi tu ol y clawdd wedi rhydu ac ond mater a amser cyn bydd y wal ar clawdd yn dymchwel.

**14.6** – Rhydlewis – Ger Garreglwyd – mae angen torri'r cloddiau achos mae plant yn methu cerdded ar y llwybr – gorfod mynd ar y ffordd sydd yn beryglus.

**14.7** - Mae sied wedi codi yn Rhydlewis sydd wedi codi pryder i rai. Mae hwn yn gonsyrn yn hyrtach na chwyn – a oes caniatad cynllunio?

**14.8** – Mae un twll ar y sgwar ger yr hen siop. Serch hynny mae tyllau oedd ynghanol y pentref wedi cael eu llenwi bellach.

**14.9** -Mae'r ffens oren yn dal yn yr un lle sydd yn ddolur llygad.

**14.10** – Mae'r binaiau yn achosi consyrn i sawl pentref – nid ydynt yn cael eu casglu'n rheolaidd. Mae'n debyg fod hwn yn broblem ar draws y Sir.

Y cwyno cyffredinol yw fod y trethi yn codi a'r gwasanaeth yn dirywio!!

**14.11** – Mae Clwb Garddio wedi dechrau yn Newuadd Coedybeyn ac mae tua 25 wedi mynychu pob tro hyd yn hyn.

**14.12** – Mae Cyngerdd yn Neuadd Coedybryn ar y 12fed o Hydref – "Welsh of the West End".

**14.13** – Diolchwyd i'r rhai fu'n torri o amgylch y bareli blodau. Nodwyd y byddai angen symud y pot sydd ger arwydd Maesllyn erbyn y flwyddyn nesaf – mae dan y coed ac nid yw'r tyfiant yn llewyrchus.

**14.14** – Mae llawer o ddwyn wedi bod yn ddiweddar o ffermydd ( er nid yn ein cymuned ni). Rhaid bod yn wyliadwrus.

**14.15** – Bocs Grit melyn gan y Cyng Llyr Evans (hwn i drafod yn y cyfarfod nesaf).

**15. Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis ar Hydref 1af am 7:30yh

Gan nad oedd dim ymhellach i drafod tynnwyd y cyfarfod i ben am 9:35yh.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

-------------------------------------------------------- --------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad